# Cyngor Cymuned Llandygai

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd
yn Neuadd Goffa, Mynydd Llandygai

**Nos Iau 18 o Medi 2025 am 18.30**

**PRESENNOL:**

Y Cynghorydd Mair O Pierce
Y Cynghorydd Huw Jones
Y Cynghorydd Dafydd Roberts
Y Cynghorydd David Roberts
Y Cynghorydd Gareth Williams
Y Cynghorydd Iwan Hywel
Y Cynghorydd Anwen Jones
Y Cynghorydd Dafydd Owen
Y Cynghorydd Mary Hayes
Y Cynghorydd Sian Beidas
Y Cynghorydd Bethan Roberts

**1. Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd, Cyng. Mary Hayes

**Ymddiheuriadau** gan y Cyngr. Beca Roberts, Lowri Jones

**Datganiad o Ddiddordeb:** Dim

2. **Ymweliad gan Ymddiriedolaeth Genedlaethol:** Cyflwynwyd Trystan Edwards (Rhelowr Cyffredinol, Ymddiriedolaeth Genedlaethol) gynlluniau ar gyfer adnewyddu Bwthyn Ogwen. Esbonwyd fod plant o bob rhan o'r DU yn ymweld a'r lle, ond nad yw'r adeilad yn addas ar hyn o bryd. Cynlluniau ar gyfer gwella hygyrchedd gyda gwaith i ddechrau tua 2029-30. Nid yw'r strategaeth ariannu wedi cychwyn eto, gyda disgwyl i'r arian ddod o'r Loteri a Llywodraeth Cymru. Codwyd y Cyngor pryderon am gyflymder yr A5 a'r effaith adeiladu, ond ystyrwyd y cyngor fod y prosiect yn angenrheidiol ac yn gyffrous. Gofynwyd hefyd y Cyngor os oedd plant lleol yn gwneud defnydd o'r cyfleoedd preswyl, cytunwyd y gallai creu mwy o gyfleoedd i blant lleol yn y dyfodol fod yn beth gwych.

## 3. Cofnodion

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 o Orffenaf yn Mynydd Llandygai

### Materion yn codi o'r cofnodion

**3.1** **Seddi Gwag:** Penderfynwyd y dylai'r Cyngor Cymuned barhau i geisio llenwi'r seddi gwag – ym Mynydd Llandygai a Llandygai. Bydd y Clerc yn cysylltu â Beca Roberts, sydd eisoes wedi paratoi rhai taflenni i'r diben hwn.

Bydd y Clerc hefyd yn gofyn i Bartneriaeth Ogwen bostio neges arall ar y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r galwad am aelodau newydd.

3.2 **Mynedfa Lon Las Ogwen ger Modurdy Pandy** –Gofynnodd y Clerc am ddiweddariad ond ni dderbyniwyd ymateb hyd yma. Y Clerc i ffonio Ian Morgan.

3.3 **Pecyn Budd Cymunedol Zip World:** Mae'r Cyngor Cymuned yn teimlo nad ydynt wedi derbyn yr holl atebion i'w gofynion mewn perthynas â'r Pecyn Budd Cymunedol. O ganlyniad, awgrymwyd ailgyflwyno'r llythyr i Andrew Hudson er mwyn ceisio ymateb cliriach i bryderon y Cyngor. Y Clerc i ail anfon yr llythyr i Andrew Hudson.

3.4 **Ffordd Tan Rhiw / Bro Sir Ifor –**Y Clerc am ceisio cael asesiad o'r sefyllfa parcio yma. Mae'r mater ar y gweill.

3.5 **Parcio ar Lôn Dinas (ger yr A5)**– Y Clerc am ceisio cael asesiad wedi gwneud. Cyngor Cymuned yn teimlo fel bydd arwydd 'man pasio' yn ddigonol.

3.6 **Parc y Bwlch, Mynydd Llandygai**: Cadarnhawyd bod yr asesiad ar y llwybr wedi'i gynnal, a bod Kath McNulty (CNC) wedi cadarnhau y bydd y llwybr yn cael ei wella er mwyn ei wneud yn fwy diogel ac yn llai garw. Bydd y Clerc yn gofyn am gadarnhad ynghylch y pren a sut y gellid trefnu i'r gymuned ei gael.

3.7 **Cronfa Gwynedd Ni:**

Cadarnhaodd y Clerc fod y cais am gyllid wedi bod yn llwyddiannus ar gyfer gardd gymunedol Ysgol Bodfeurig, yn ogystal â phrosiect celf gymunedol gyda'r plant i greu arwyddion "araf" i'w gosod ger y ffordd (o fewn ardal yr ardd).

Ystyriwyd y prosiect hwn yn dilyn pryderon ynghylch gyrru'n rhy gyflym yn ardal Sling a'r ffordd sydd newydd ei hailwynebu.

Bydd y gronfa hefyd yn cael ei defnyddio i brynu offer chwarae tu allan ac i greu arwydd ar gyfer yr ardd gymunedol, sydd ar agor i'r cyhoedd. Bydd y Clerc yn gweinyddu'r prosiect hwn ac yn gwneud unrhyw daliadau sy'n gysylltiedig ag ef.

**4. Gohebiaeth**

**Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Medi 2025'**

**4.1 Defnydd o chwynladdwyr, Braichtalog:** Cofnodwyd bod y mater hwn wedi'i godi gyntaf dair blynedd yn ôl. Penderfynwyd y bydd y Clerc yn cysylltu â Steffan Jones yn Cyngor Gwynedd i ofyn am ddiweddariad ar safbwynt y Cyngor ynghylch y defnydd o chwynladdwyr. Bydd y Clerc hefyd yn ymateb i Non Childs gyda'r wybodaeth ddiweddaraf.

**5. Gwaith y mis**

**5.1 Gordyfiant, Mynydd Llandygai**

Nodwyd bod gordyfiant yn tyfu allan i'r ffordd ym Mynydd Llandygai. Gan fod hyn yn fater o fewn cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd, bydd y Clerc yn cysylltu ag Adran Priffyrdd i roi wybod am y sefyllfa.

**5.2 Felin Hen – Dŵr yn Hel**

Cofnodwyd bod dŵr yn cronni ar waelod Felin Hen, gan greu sefyllfa beryglus i ddefnyddwyr y ffordd. Bydd y Clerc yn hysbysu Cyngor Gwynedd am y mater hwn.

**5.3 Llinellau Gwyn, Mynydd Llandygai**

Nodwyd bod angen ail-beintio'r llinellau gwyn ym Mynydd Llandygai. Bydd y Clerc yn cysylltu â'r Adran Briffyrdd ynghlyn a hyn.

**6. Adroddiad Cynrychiolwyr – Dim.**

**7. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu**

**7.1** Pawb wedi derbyn Adroddiad Ariannol gyda rhestr taliadau, derbyniadau a mantolen am flwyddyn gyfredol. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

**8. Cytundeb To gyda Ynni Ogwen – Paneli Haul Canolfan Tregarth**

**8.1** Nodwyd bod nifer o faterion yn ymwneud â'r cytundeb, y Clerc i anfon y canlynol i Dafydd Meurig cyn arwyddo:

**Rôl y Cyngor:**
Mae'n rhaid newid statws y Cyngor Cymuned o *"Berchennog yr Adeilad"* i *"Denant yr Adeilad"*, gan mai Cyngor Gwynedd yw'r gwir berchennog.
**Amod Coed (Pwynt 5.2):**
Rhaid egluro bod cyfrifoldeb y Cyngor am y coed yn gyfyngedig i'r rhai sydd o fewn ffiniau'r Ganolfan Gymunedol.
**Arwyddo:**
Bydd angen ychwanegu adran lofnodi newydd er mwyn i Gyngor Gwynedd allu llofnodi'r cytundeb hefyd.

**9. Taliadau**

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Cyngor Gwynedd | Ffioedd Archwiliad Mewnol | £480 |
| Ysgol Dyffryn Ogwen | Ysgoloriaeth / Gwobrau | £150.00 |

**9. Penderfyniadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C24/0787/16/DT** | 1 Llwybr Main, Mynydd Llandygai,<br>Estyniad unllawr ochr a newidiadau mewnol i annedd presennol<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0997/16/LL** | Hen Pandy Craig Y Pandy, Tregarth<br>Newid defnydd uned wyliau yn dŷ annedd ar gyfer gweithiwr amaethyddol.<br>**Penderfyniad:** caniatawyd gyda amodau |
| **C24/1058/16/LL** | Parth 3 Parc Bryn Cegin, Llandygai,<br>Adeiladu 4 uned ddiwydiannol newydd a thirlunio allanol cysylltiedig ar Lain C3 ym Mharc Bryn Cegin, Llandygai, Bangor.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0937/16/LL** | Zip World, Chwarel Penrhyn, Bethesda<br>Datblygu reid dwristiaeth antur newydd ar ffurf 'Swing' i gynnwys codi strwythur platfform, ramp a strwythur glanio, ceblau a strwythurau angori ynghyd â gwaith cysylltiedig<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C25/0003/16/DT** | Bryn Derwen, Bethesda<br>Codi 3 boeler biomas ( cais ôl-weithredol)<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C25/0048/16/CR** | Gwalia, 1, Bryn Eglwys, Santes Ann, Mynydd Llandygai<br>Addasiadau mewnol<br>**Penderfyniad:** caniatawyd gyda amodau |
| **C25/0042/16/LL** | Parth 4 Parc Bryn Cegin, Llandygai<br>Bwriad i godi 4 uned ddiwydiannol o fewn un adeilad ynghyd a ffordd fynediad i wasanaethu'r datblygiad<br>**Penderfyniad:** ar y gweill |
| **C24/0934/16/LL** | Uned Porth Penrhyn, Bangor<br>Caniatâd cynllunio llawn i ddymchwel adeiladau presennol ar y safle a chodi adeilad newydd i greu 5 o unedau masnachol/diwydiannol ynghyd â mynedfa newydd cysylltiedig, darpariaethau parcio a gwaith lliniaru llifogydd a thirlunio meddal<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |

| | |
|---|---|
| **C25/0242/16/DT** | Bodfeurig Farm Cottage, Sling, Tregarth, Bangor, LL57 4RL. Gosod ty gwydr ac ystafell ardd o fewn gardd yr eiddo. **Penderfyniad:** caniatawyd gyda amodau |
| **C25/0319/16/DT** | 22 Ffordd Tanrhiw, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AH. Estyniad llawr cyntaf cefn. **Penderfyniad:** caniatawyd gyda amodau |
| **C25/0124/16/DT** | Llidiart Y Mynydd, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4RE. Codi modurdy ar wahân gyda grisiau allanol i swyddfa ar y llawr cyntaf. Addasu'r gwarblat ar flaen y tŷ i greu gofod ychwanegol a balconi Juliette gyda ffenestr. Cladio'r llawr gwaelod â carreg a rendro'r llawr cyntaf â 'silicone monocouche'. **Penderfyniad:** Ar y gweill |
| **C25/0392/16/DT** | Lleoliad: Isnant, 3 Rhes Groes, Sling, Bangor, Gwynedd, LL57 4RG<br>Bwriad: Dymchwel adeilad allanol presennol sydd wedi'i ddifrodi 'n rhannol. Adeiladu adeilad allanol newydd yn lle'r un gwreiddiol ynghyd a gwaith tirlunio a garddio: Caniatawyd gyda Amodau |

**10. Ceisiadau Cynllunio**

**C25/0591/16/LL**

**Lleoliad: Plot C4, Parc Bryn Cegin, Llandegai,, Bangor, LL57 4BG**

Bwriad: Caniatâd cynllunio ar gyfer codi dau adeilad swyddfa newydd, a chais ôl-weithredol ar gyfer codi adeilad storio.

**C25/0490/16/DT**

**Lleoliad / Location: Tan Y Bryn, Santes Ann, Mynydd Llandygai, Bangor, Gwynedd, LL57 4BQ**

Bwriad: Estyniadau unllawr ar ochr yr annedd a chodi porth newydd

**C25/0487/16/DT**

**Lleoliad: Ffynnon Bach, Sling, Bangor, Gwynedd, LL57 4PA**

Bwriad:Adeiladu caban gardd i'w ddefnyddio fel atodiad i'r prif dŷ. Caban i'w ddefnyddio fel atodiad i'r prif dŷ yn unig, nid ar gyfer llety rhent.

**11. Unrhyw fater brys arall – dim**

**12. Crynodeb Llais Ogwen**

Seddi Wag, Llandygai, Mynydd Llandygai

Cronfa Gwynedd Ni: Ysgol Bodfeurig